

Arweiniad i arolygwyr

Beth rydym yn ei arolygu
Gwasanaethau addysg llywodraeth leol – ar
gyfer arolygiadau o Fedi 2024



Mae'r arweiniad hwn hefyd ar gael yn Saesneg.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor

Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:

www.estyn.llyw.cymru

© Hawlfraint y Goron 2024: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Cynnwys

Cyflwyniad	1
Gwerthuso pob maes arolygu (MA)	2
Ynglŷn â'r awdurdod lleol neu ddarparwr arall gwasanaethau addysg	2
Trosolwg	3
Argymhellion	3
Beth sy'n digwydd nesaf	3
Sail dystiolaeth yr arolygiad	3
Meysydd arolygu	4
Meysydd arolygu	4
1: Gwasanaethau addysg a'u heffaith	4
2: Arwain a gwella	12

Cyflwyniad

Mae'r llawlyfr hwn yn amlinellu beth rydym yn ei arolygu mewn arolygiadau o wasanaethau addysg llywodraeth leol (GALIL). Dylid ei ddarllen ar y cyd â llawlyfr ar wahân 'Sut rydym yn arolygu', sy'n esbonio'r broses a'r fethodoleg arolygu.

Mae'r arweiniad yn ddeunydd darllen hanfodol i arolygwyr cofnodol a phob aelod arall o'r tîm arolygu, gan gynnwys yr enwebai. Bydd hefyd yn ddefnyddiol i ddarparwyr i ategu eu dealltwriaeth o'r arweiniad arolygu

Mae gwasanaethau addysg llywodraeth leol yn cynnwys swyddogaethau addysg statudol yr awdurdod lleol i blant a phobl ifanc hyd at 25 oed. Mae hyn yn cynnwys gwasanaethau addysg sy'n cael eu darparu ar ran awdurdod lleol gan:

- wasanaeth gwella ysgolion
- partneriaeth rhwng dau neu fwy o awdurdodau lleol
- sefydliad arall wedi'i gomisiynu gan yr awdurdod lleol (er enghraifft, mudiad gwirfoddol neu gwmni preifat)

Gallai'r darparwyr eraill hyn gael eu harolygu ar wahân i awdurdod lleol a chyfeirir atynt yn yr arweiniad hwn fel 'darparwyr eraill gwasanaethau addysg'. Yn yr arolygiadau hyn, byddai arolygwyr ond yn cymhwyso'r rhannau o'r fframwaith sy'n cwmpasu'r gwasanaethau addysg perthnasol. Darllenwch ein harweiniad '[Sut rydym yn arolygu](#)' am ragor o wybodaeth.

Mae dau faes arolygu mewn arolygiadau GALIL, fel yr amlinellir isod.

Meysydd arolygu

Maes arolygu 1. Gwasanaethau addysg a'u heffaith

- 1.1 Gwasanaethau gwella ysgolion
- 1.2 Cymorth i ddysgwyr bregus
- 1.3 Gwasanaethau cymorth eraill

Maes arolygu 2: Arwain a gwella

- 2.1 Ansawdd ac effeithiolrwydd arweinwyr a rheolwyr
- 2.2 Hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella
- 2.3 Trefniadau diogelu
- 2.4 Defnyddio adnoddau

Mae arolygiadau o wasanaethau addysg llywodraeth leol yn cynnwys arolygiad o unrhyw rai o'r canlynol:

- awdurdod lleol
- gwasanaeth gwella ysgolion
- gwasanaeth partneriaeth rhwng dau neu fwy o awdurdodau lleol i ddarparu unrhyw wasanaethau addysg
 - gwasanaeth addysg a gomisiynwyd gan awdurdod lleol neu grŵp o awdurdodau lleol

Byddwn yn cynnal arolygiadau ar wahân o waith ieuencid awdurdodau lleol ac addysg drochi Cymraeg o fis Medi 2024 ymlaen. Yn achos y gwasanaeth ieuencid statudol, caiff yr arolygiadau eu cynnal bedair wythnos cyn yr arolygiadau GALIL fel bod y canfyddiadau'n llywio agweddau perthnasol ar arolygiad GALIL yr ALI.

Gwerthuso pob maes arolygu (MA)

Ni fydd timau arolygu'n rhoi graddau cyffredinol ar gyfer pob maes arolygu. Fodd bynnag, byddant yn gwerthuso gwasanaethau addysg yn gadarn ac yn drylwyr, ynghyd â'u heffaith ar ddysgu a lles.

Bydd arolygwyr bob amser yn cynnwys gwerthusiadau clir yn gysylltiedig â'r gofynion adrodd ym mhob maes arolygu, fel sydd i'w gweld yn y llawlyfr hwn. Fodd bynnag, gall yr hyn y mae arolygwyr yn adrodd arno ym mhob maes arolygu amrywio yn ôl arwyddocâd cymharol yr hyn y maent yn ei ddarganfod. Gall arolygwyr adrodd 'drwy eithriad'. Mae hyn yn golygu y gallent adrodd ar rai agweddau pan fydd cryfderau penodol neu feysydd penodol i'w gwella yn unig.

Pan fydd arolygwyr yn nodi arfer ddiddorol neu arloesol sy'n haeddu cael ei rhannu'n ehangach, bydd yr adroddiad yn amlygu hyn mewn blwch 'sbotolau ar'.

Pan fydd arolygwyr yn nodi diffygion pwysig yn un neu'r ddau faes arolygu, gallent ddod i'r casgliad bod y gwasanaethau addysg yn peri pryder sylweddol a bod angen gweithgarwch dilynol arnynt. Ceir rhagor o arweiniad ar weithgarwch dilynol yn 'Sut rydym yn arolygu'.

Ynglŷn â'r awdurdod lleol neu ddarparwr arall gwasanaethau addysg

Bydd yr adran hon o'r adroddiad yn fyr ac yn cynnwys gwybodaeth gefndir ffeithiol yn unig am yr awdurdod lleol neu ddarparwr arall gwasanaethau addysg. Fel arfer, bydd yr arolygydd cofnodol yn cytuno ar gynnwys yr adran hon â'r awdurdod lleol neu ddarparwr arall gwasanaethau addysg. Os bydd anghytundeb ynghylch cynnwys yr adran hon, yr arolygydd cofnodol fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol ynghylch beth i'w gynnwys yn yr adroddiad.

Fel arfer, bydd yr adran hon yn cynnwys gwybodaeth gryno am:

- nifer yr ysgolion, yr UC Dau a'r lleoliadau addysg eraill y mae'r awdurdod lleol neu ddarparwr arall gwasanaethau addysg yn eu gwasanaethu

- gwybodaeth gyd-destunol ddefnyddiol am y boblogaeth mewn ysgolion a lleoliadau addysg eraill, fel dangosyddion o nifer y dysgwyr o aelwydydd ag incwm isel neu nodweddion bregus eraill
- o ran lleoliadau addysg eraill, cwmpas eu gwasanaethau
- y gyllideb

Trosolwg

Dylai'r adran hon o'r adroddiad:

- gynnwys trosolwg byr o'r prif ganfyddiadau (uchafswm o 400 gair) yn amlinellu'r cryfderau allweddol ac unrhyw feysydd pwysig y mae angen eu gwella
- creu'r cysylltiad rhwng ansawdd gwasanaethau addysg, eu heffaith ar ddysgwyr ac effeithiolrwydd arweinyddiaeth
- amlygu themâu cyffredinol o'r argymhellion
- bod yn gyson â'r canfyddiadau yng nghorff yr adroddiad
- cael ei hysgrifennu mewn arddull a thôn sy'n hygyrch i'r darlennydd lleyg

Argymhellion

Dylai'r argymhellion:

- gysylltu'n agos â phrif feysydd gwerthuso'r arweiniad arolygu, gyda'r argymhellion pwysicaf wedi'u hadlewyrchu yn y trosolwg
- rhoi syniad clir a phenodol i'r awdurdod lleol neu ddarparwr arall gwasanaethau addysg o'r maes/meysydd y mae angen ei/eu (g)wella
- cael eu hysgrifennu yn nhrefn eu blaenoriaeth, yn hytrach nag yn ôl trefn yr arweiniad

Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr adran 'beth sy'n digwydd nesaf' yn amlinellu'r hyn y mae angen i'r awdurdod lleol neu ddarparwr arall gwasanaethau addysg ei wneud ar ôl yr arolygiad. Ym mhob achos, bydd angen i arweinwyr ymateb i'r argymhellion drwy roi'r camau gweithredu sydd eu hangen ar waith i wneud y gwelliannau a nodwyd gan y tîm arolygu.

Dylai'r adran hon nodi os oes unrhyw flychau 'sbotolau ar' yn yr adroddiad y gallai Estyn roi sylw iddynt drwy gyfryngau cymdeithasol, cyhoeddiadau eraill Estyn neu ddigwyddiadau.

Bydd yr adran hon yn nodi os oes angen gweithgarwch dilynol ar yr awdurdod lleol neu ddarparwr arall gwasanaethau addysg. Yn yr achosion hyn, bydd y trosolwg yn rhoi esboniad byr o'r rhesymau am y gweithgarwch dilynol.

Sail dystiolaeth yr arolygiad

Mae arolygwyr yn defnyddio ystod eang o dystiolaeth i wneud yn siŵr fod eu canfyddiadau'n ddilys, yn gywir ac yn ddibynadwy. Bydd yr adran hon o'r adroddiad

yn esbonio'r ffynonellau tystiolaeth y gwnaethant eu defnyddio, yn ogystal ag ystod y gweithgareddau y gwnaethant ymgymryd â nhw yn ystod eu hymweliad.

Meysydd arolygu

Mae'r adran ganlynol yn esbonio'r hyn y mae pob maes arolygu yn ei gwmpasu a'r hyn y mae angen i'r arolygwyr ei gadw mewn cof wrth werthuso pob un ohonynt.

Mae'r meysydd arolygu yr un mor bwysig â'i gilydd. Ym mhob maes arolygu, ni fydd yr adroddiad yn cwmpasu'r agweddau yn y drefn maent yn ymddangos yn y llawlyfr hwn bob tro.

Fel arfer, bydd yr adroddiad ar gyfer pob cwestiwn arolygu lleol ym maes arolygu 1 tua 400-800 gair. Bydd yr adroddiad ar gyfer maes arolygu 2 tuag 800-1,200 gair, fel arfer.

Ym mhob maes arolygu, gall yr arolygydd cofnodol adrodd ar yr agweddau yn y drefn y maent yn ymddangos yn y llawlyfr neu gall ddewis rhoi'r agweddau mewn trefn wahanol i adlewyrchu ei ganfyddiadau.

Meysydd arolygu

1: Gwasanaethau addysg a'u heffaith

Mae'r fframwaith sy'n dilyn yn amlinellu cwmpas y gwasanaethau a allai gael eu harolygu ac yn rhoi arweiniad arolygu.

Fel rhan o bob proses arolygu, byddwn yn drafftio set o gwestiynau arolygu lleol am wasanaethau addysg sy'n berthnasol i'r awdurdod lleol neu ddarparwr arall gwasanaethau addysg. Gallai'r cwestiynau gwmpasu unrhyw rai o'r agweddau sydd wedi'u cynnwys ym maes arolygu 1. Am fwy o wybodaeth am gwestiynau arolygu lleol, darllenwch ein harweiniad 'Sut rydym yn arolygu'.

Mae'n ofynnol i arolygwyr werthuso gwasanaethau sy'n cael eu cwmpasu gan y cwestiynau arolygu lleol yn unig. Rhaid i arolygwyr gynnwys ymateb i bob cwestiwn ar wahân yn yr adroddiad.

Wrth fynd i'r afael â phob cwestiwn arolygu lleol, rhaid i arolygwyr ystyried ac adrodd ar effaith gwasanaethau addysg ar ddysgwyr bob tro.

1.1 Cymorth ar gyfer gwella ysgolion

Wrth werthuso gwasanaethau gwella ysgolion, dylai arolygwyr ystyried perfformiad ysgolion ac UC'Dau dros gyfnod. Wrth ystyried deilliannau dysgwyr, byddai arolygwyr fel arfer yn rhoi'r pwys mwyaf ar ein hadroddiadau arolygu ar ysgolion ac UC'Dau, gan fod y rhain yn cynnig y darlun mwyaf cyflawn o ddeilliannau. Fel arfer, byddai arolygwyr yn canolbwyntio ar y tair blynedd flaenorol ac yn ystyried natur y sampl yn ystod y cyfnod hwnnw.

Hefyd, gallai arolygwyr ystyried sut caiff data priodol ei ddefnyddio i ategu gwerthusiadau o ddeilliannau, gan gynnwys, er enghraifft, data ar gynnydd, cyrhaeddiad a lles dysgwyr.

Dylai arolygwyr werthuso pa mor dda y mae'r awdurdod lleol neu ddarparwr arall gwasanaethau addysg yn adnabod ac yn monitro'r ysgolion a'r UC'Dau y mae'n gyfrifol amdanynt ac yn cynnig her, cymorth ac ymyrraeth gymesur a hyblyg i gefnogi deilliannau gwell i bob dysgwr trwy ddarpariaeth addysg o ansawdd uchel ac arweinyddiaeth gref.

Dylai arolygwyr ystyried effaith ystod y gwasanaethau sy'n cefnogi gwella ysgolion. Gallai arolygwyr ystyried, er enghraifft, effaith gwaith yn y meysydd canlynol:

- adnabod ysgolion ac UC'Dau yn dda a'u herio ar eu meysydd i'w gwella
- cynorthwyo ysgolion ac UC'Dau i gynllunio ar gyfer gwelliant cynaliadwy, yn enwedig o ran ansawdd addysgu a dysgu ac ansawdd arweinyddiaeth
- cynorthwyo ysgolion ac UC'Dau o ran diwygio'r cwricwlwm a blaenoriaethau cenedlaethol eraill
- cynorthwyo ysgolion ac UC'Dau i rannu arfer dda a dysgu oddi wrth ysgolion ac UC'Dau eraill
- cynorthwyo dysgu proffesiynol effeithiol ar bob lefel mewn ysgolion ac UC'Dau

Gallai arolygwyr ystyried a yw cytundebau partneriaeth neu gytundebau eraill ag ysgolion ac UC'Dau yn effeithiol.

Gallai arolygwyr farnu trylwyrredd y gwaith i fonitro ysgolion ac UC'Dau, ac eglurder, cywirdeb, defnyddioldeb ac effaith yr adborth i alluogi ysgolion ac UC'Dau i wella. Pan fydd ysgolion ac UC'Dau yn peri pryder, gallai arolygwyr werthuso i ba raddau y caiff diffygion eu nodi'n gynnar a pha mor gyflym a llwyddiannus yr eir i'r afael â phroblemau yn yr ysgolion a'r UC'Dau hyn o ganlyniad i hynny. Gallai arolygwyr werthuso pa mor dda y mae'r awdurdod lleol yn defnyddio ystod lawn ei bwerau cyfreithiol pan nodir bod ysgolion yn peri pryder a phan nad yw'r ysgolion hyn yn gwneud cynnydd yn ddigon cyflym. Dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae awdurdod lleol yn gallu nodi bod ysgol neu UC'D yn dechrau peri pryder, heb ddibynnu ar arolygiad o ysgol neu UC'D i wneud hynny.

Gallai arolygwyr farnu ansawdd y data a'r dadansoddiad data a ddarperir i ysgolion ac UC'Dau. Gallent werthuso a yw data'n cael ei ddsbarthu mewn modd amserol i ysgolion ac UC'Dau, a'i ddefnyddio'n briodol i'w cynorthwyo i wella.

Gallai arolygwyr werthuso pa mor dda y caiff ysgolion ac UC'Dau eu cynorthwyo i ddatblygu gweithdrefnau effeithiol ar gyfer hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella.

Gallai arolygwyr ystyried safbwyntiau arolygwyr cofnodol ar gyfer arolygiadau ysgolion ac UC'Dau ynghylch defnyddioldeb y wybodaeth a roddwyd gan yr awdurdod lleol, yn ogystal ag adborth gan gydweithwyr Estyn ynglŷn ag ansawdd cynlluniau gweithredu ôl-arolygiad a datganiadau gweithredu awdurdodau lleol. Dylai arolygwyr ystyried safbwyntiau arolygwyr cofnodol ar gyfer gwaith dilynol ag ysgolion ac UC'Dau hefyd, oherwydd y gallent amlygu tystiolaeth ddefnyddiol am y cymorth a ddarperir gan wasanaethau gwella ysgolion lleol.

Gallai arolygwyr werthuso gwaith i fynd i'r afael â meysydd cenedlaethol â blaenoriaeth i ysgolion ac UC'Dau. Er enghraifft, gallai arolygwyr ystyried argaeledd ac ansawdd cymorth a ddarperir i ysgolion mewn meysydd fel mynd i'r afael ag effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol, rhoi'r Cwricwlwm i Gymru ar waith (gan gynnwys cymorth ar gyfer pynciau a chyfnodau penodol), llythrennedd, rhifedd, cymhwysedd digidol, datblygu'r Gymraeg a newidiadau i gymwysterau. Gallai arolygwyr asesu a yw unrhyw strategaethau i gefnogi'r meysydd blaenoriaeth cenedlaethol hyn yn glir, yn gydlynus ac wedi'u deall yn dda gan ysgolion ac UC'Dau.

Gallai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae gwasanaethau gwella ysgolion yn rhoi ystyriaeth i les dysgwyr a chynnydd dysgwyr bregus wrth ystyried natur yr her a'r cymorth i'w cynnig i ysgolion ac UC'Dau. Gallai arolygwyr farnu pa mor dda y mae gwasanaethau'n hyrwyddo iechyd a lles i bob dysgwr, fel iechyd meddwl, ffyrdd iach o fyw a chyfranogi mewn gweithgarwch corfforol, drwy ei ysgolion a'i UC'Dau.

Gallai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae gwasanaethau addysg yn hyrwyddo presenoldeb da ac yn herio presenoldeb isel. Gallent ystyried pa mor dda y mae gwasanaethau addysg yn hyrwyddo ac yn cynorthwyo dysgwyr i gael perthnasoedd cadarnhaol â'u cyfoedion a staff addysg. Dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae staff gwella ysgolion yn herio ysgolion ac UC'Dau am effeithiolrwydd eu hymagweddu at reoli pryderon am ymddygiad dysgwyr, fel defnyddio cyfleusterau mewnol ar gyfer dysgwyr sy'n cael eu tynnu o'u dosbarth a defnyddio gwaharddiadau cyfnod penodol.

Gallai arolygwyr werthuso pa mor llwyddiannus y mae gwasanaethau'n nodi anghenion datblygu llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol mewn ysgolion ac UC'Dau. Gallent ystyried sut caiff yr anghenion hyn eu bodloni trwy raglen systematig o gymorth a dysgu ar gyfer uwch arweinwyr ac arweinwyr canol, gan gynnwys mentora, ymgynghoriaeth, rhaglenni arweinyddiaeth a lledaenu arfer dda. Yn benodol, gallent ystyried pa effaith y mae'r cymorth hwn wedi'i chael ar wella ysgolion, gan gynnwys gwella rheoli adnoddau'n well a darpariaeth a deilliannau gwell i ddysgwyr.

Gallai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae gwasanaethau gwella ysgolion yn diwallu anghenion ffederasiynau ysgolion ffurfiol ac anffurfiol.

Gallai arolygwyr werthuso a oes polisiâu effeithiol i reoli recriwtio llywodraethwyr, gan gynnwys o grwpiau lleiafrifol a grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol. Gallent ystyried ansawdd ac amseroldeb y wybodaeth a roddir i'w helpu i wneud penderfyniadau a mynd i'r afael ag unrhyw feysydd i'w gwella.

1.2 Cymorth i ddysgwyr bregus

Gallai dysgwyr sydd mewn un neu fwy o'r grwpiau canlynol fod yn fwy agored i dangyflawni neu les gwaeth:

- dysgwyr ag ADY
- dysgwyr o grwpiau ethnig lleiafrifol
- dysgwyr â phresenoldeb ysgol isel
- dysgwyr anabl
- plant Sipsiwn, Roma a Theithwyr
- dysgwyr sy'n cael eu haddysgu heblaw yn yr ysgol
- dysgwyr ag anghenion iechyd corfforol neu iechyd meddwl
- dysgwyr sy'n siarad Saesneg neu Gymraeg fel iaith ychwanegol
- dysgwyr o aelwydydd ag incwm isel
- plant sydd â phrofiad o fod mewn gofal, gan gynnwys plant sy'n derbyn gofal
- ffoaduriaid a cheiswyr lloches
- dysgwyr sy'n cael eu haddysgu gartref
- plant sydd mewn perygl o niwed, cam-drin neu esgeulustod
- plant gweithwyr mudol
- plant teuluoedd y lluoedd arfog
- dysgwyr LHDTTC+
- dysgwyr oed ysgol sy'n perfformio neu sydd wedi'u cyflogi
- troseddwr ifanc
- dysgwyr sydd wedi'u gwahardd o'r ysgol
- dysgwyr mwy abl a thalentog
- gofalwyr ifanc
- menywod ifanc sy'n feichiog
- rhieni ifanc

Ni ddylai'r rhestr hon gael ei hystyried yn rhestr gynhwysfawr o'r dysgwyr a all fod yn fregus y gall fod angen cymorth ychwanegol arnynt. Efallai y bydd gan awdurdodau lleol a darparwyr eraill gwasanaethau addysg feini prawf eraill ar gyfer adnabod dysgwyr bregus.

Mae gan awdurdod lleol gyfrifoldebau statudol penodol dros ddysgwyr mewn rhai o'r grwpiau hyn, ond nid ym mhob achos.

Ni fydd angen cymorth ychwanegol ar bob dysgwr yn y grwpiau hyn. Fodd bynnag, dylai arolygwyr fod yn ymwybodol y gallent brofi anawsterau ar ryw adeg yn eu bywydau.

Wrth werthuso cymorth i ddysgwyr bregus, dylai arolygwyr ystyried gwybodaeth am gynnydd a lles y dysgwyr hyn mewn ysgolion, UC'Dau a lleoliadau addysg eraill, yn enwedig o adroddiadau arolygu. Fel arfer, byddai arolygwyr yn canolbwyntio ar y tair blynedd flaenorol ac ystyried natur y sampl yn ystod y cyfnod hwnnw.

Hefyd, dylai arolygwyr ystyried data priodol i ategu eu gwerthusiadau o ddeilliannau, gan gynnwys, er enghraifft, data ar bresenoldeb, gwaharddiadau, gwasanaethau cwnsela a phobl ifanc nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth. Dylai arolygwyr wneud cymariaethau priodol ag ardaloedd eraill yng Nghymru a chanolbwyntio ar y tair blynedd blaenorol, fel arfer. Bydd arolygwyr yn adrodd ar ddata wedi'i goladu a'i wirio yn genedlaethol yn unig i gefnogi eu gwerthusiadau.

Wrth ystyried gwybodaeth am berfformiad ysgolion ac UCDAu, dylai arolygwyr ystyried perfformiad grwpiau o ddysgwyr ar draws yr ardal leol, yn enwedig dysgwyr bregus.

Gallai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae'r awdurdod lleol neu ddarparwr gwasanaethau addysg yn cydlynu, cynorthwyo ac yn darparu ystod o wasanaethau cyffredinol a gwasanaethau targedig i hyrwyddo cynhwysiant a lles yr holl blant a phobl ifanc a chynorthwyo dysgwyr bregus i gyflawni deilliannau da. Yn ogystal ag ystyried y gwasanaethau a ddarperir i blant a phobl ifanc y dynodwyd eu bod yn fregus, gallai arolygwyr hefyd ystyried gwasanaethau y gellir eu darparu'n gyffredinol sy'n ceisio lleihau'r risg y bydd plant a phobl ifanc yn mynd yn fregus.

Gallai arolygwyr adolygu pa mor dda y mae'r awdurdod lleol yn cyflawni ei ddyletswyddau statudol ar gyfer dysgwyr ag ADY, fel yr amlinellir yn Neddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg [Cymru] 2018 a'r Cod ADY ategol. Gallai arolygwyr ystyried gwaith i gynorthwyo i nodi ADY yn gynnar. Gallent werthuso i ba raddau y mae dysgwyr ag ADY yn cael cymorth, ymyrraeth, eiriolaeth a darpariaeth briodol yn unol â'u hanghenion, gan gynnwys cymorth cyn-ysgol ac ôl-16. Gallai arolygwyr adolygu defnydd yr awdurdod lleol o ddarpariaethau arbenigol mewn ysgolion i ddiwallu anghenion dysgwyr ag ADY penodol. Gallai arolygwyr adolygu gwaith i gynorthwyo dysgwyr yn ystod y cyfnod pontio rhwng sectorau neu ddarparwyr. Wrth werthuso cymorth i ddysgwyr ag ADY, dylai arolygwyr ystyried i ba raddau y mae darpariaeth ar gael yn gyfartal trwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae gan blant, eu rhieni neu ofalwyr a phobl ifanc hyd at 25 oed yr hawl i apelio i'r Tribiwnlys Addysg yn erbyn penderfyniad a wnaed gan awdurdod lleol yn gysylltiedig â'u ADY neu gynllun datblygu unigol (CDU). Gallai arolygwyr werthuso trefniadau'r awdurdod lleol ar gyfer osgoi a datrys anghytuno cyn gynted ag y bo modd, ac ar y lefel fwyaf lleol.

Gallai arolygwyr ystyried effeithiolrwydd protocolau comisiynu ar gyfer plant a phobl ifanc ag anghenion cymhleth, yn enwedig ar gyfer y rhai sy'n cael eu gosod y tu allan i ddarparwyr yr awdurdod lleol ei hun. Gallai arolygwyr adolygu pa mor dda y mae'r awdurdod lleol yn monitro ansawdd addysg a deilliannau i'r dysgwyr hyn.

Gallai arolygwyr werthuso pa mor dda y mae gwasanaethau addysg yn cydweithio â phartneriaid fel y gwasanaethau gofal cymdeithasol, gwasanaethau iechyd, gwasanaethau cyfiawnder ieuencid a sefydliadau'r sector gwirfoddol i ddarparu cymorth i ddysgwyr bregus a gwella eu deilliannau.

Gallai arolygwyr ystyried ansawdd yr hyfforddiant sydd ar gael i staff mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar, mewn ysgolion, UCDAu a lleoliadau addysg eraill, fel canolfannau ieuencid, i'w cynorthwyo i ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc ag ADY. Gallai'r hyfforddiant hwn, er enghraifft, gynnwys cymorth allymestyn gan ysgolion arbennig a gynhelir, UCDAu neu ddarpariaeth arbenigol.

Gallai arolygwyr ystyried effeithiolrwydd y cymorth i rieni a gofalgwyr dysgwyr ag ADY ynghylch ansawdd yr addysg a'r deilliannau i'w plant; yn benodol, effeithiolrwydd cyngor diduedd neu wasanaethau cyfryngu wrth ddatrys anghydfodau.

Gallai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae gwasanaethau addysg yn hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol, gan gynnwys effeithiolrwydd gwaith i hyrwyddo cydraddoldeb ac atal a mynd i'r afael â gwahaniaethu, aflonyddu a bwlio, gan gynnwys yn gysylltiedig â nodweddion gwarchoddedig.

Gallai arolygwyr werthuso ystod y cyfleoedd i blant a phobl ifanc fanteisio ar gymorth, cyngor, arweiniad, eiriolaeth a gwasanaethau cwnsela personol o ansawdd uchel, er mwyn ymateb i'w hanghenion unigol a chefnogi eu cynnydd mewn addysg, gan gynnwys cyngor ac arweiniad diduedd am ystod lawn yr opsiynau ôl-16.

Gallai arolygwyr ystyried effeithiolrwydd yr ystod o ymyriadau targedig i wella presenoldeb a lleihau absenoliaeth barhaus, i ddysgwyr bregus. Gallai arolygwyr adolygu rôl yr awdurdod lleol o ran sicrhau y caiff amserlenni llai eu defnyddio'n briodol.

Gallai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae gwasanaethau addysg yn cynorthwyo staff i fynd i'r afael â phryderon yn ymwneud ag ymddygiad dysgwyr yn effeithiol ac atal materion rhag gwaethygu. Gallent ystyried effeithiolrwydd camau gweithredu i leihau gwaharddiadau. Gallent ystyried pa mor dda y mae'r awdurdod lleol yn monitro'r defnydd o waharddiadau, gan gynnwys cyfraddau a hyd gwaharddiadau am gyfnod penodedig, cyfradd y gwaharddiadau parhaol a nifer y gwaharddiadau a gafodd eu gwrthdroi gan baneli apêl annibynnol. Hefyd, gallai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae'r awdurdod lleol yn cynorthwyo ac yn monitro'r defnydd effeithiol o symudiadau wedi'u rheoli rhwng ysgolion.

Gallai arolygwyr werthuso ansawdd darpariaeth ac amseroldeb cymorth i fodloni anghenion disgyblion sydd wedi'u gwahardd a'r holl ddisgyblion sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol (AHY). Gallai arolygwyr ystyried pa mor effeithiol y mae gweithdrefnau'r awdurdod ar gyfer comisiynu, monitro a sicrhau ansawdd gwasanaethau AHY.

Gallai arolygwyr ystyried effeithiolrwydd gweithdrefnau ar gyfer nodi disgyblion sydd ar goll o addysg, disgyblion nad ydynt yn yr ysgol neu sydd mewn perygl o fod allan o addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth. Gallent ystyried effeithiolrwydd strategaethau i leihau nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth, ac effaith y rhain, yn enwedig o ran cynorthwyo pobl ifanc i gynnal eu cyrchfan gwreiddiol neu symud yn llwyddiannus i gyrchfan arall os na fu eu cyrchfan cyntaf yn llwyddiannus.

Gallai arolygwyr ystyried a oes trefniadau effeithiol ac amserol ar waith i blant a phobl ifanc bontio'n ôl i addysg, er enghraifft ar ôl gwaharddiad, newid i gynllun cymorth bugeiliol, cyfnod o addysg yn y cartref neu gyfnod o amser mewn UCD. Gallai arolygwyr werthuso a yw plant sy'n dod i fyw yn yr awdurdod yn ystod y flwyddyn ysgol, gan gynnwys plant sy'n derbyn gofal, plant ffoaduriaid a phlant sy'n dychwelyd o ddalfa nad ydynt ar gofrestr ysgol mwyach, yn cael darpariaeth yn ddi-oed mewn ysgolion sy'n bodloni eu hanghenion ac â chymorth priodol ar gyfer pontio'n ôl i addysg.

Gallai arolygwyr ystyried ansawdd gwasanaethau cymorth ieuencid ar sail eu heffaith ar ddeilliannau i bobl ifanc. Gallai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae'r gwasanaethau yn galluogi pobl ifanc i gyfranogi'n effeithiol mewn addysg a hyfforddiant, manteisio ar gyfleoedd ar gyfer cyflogaeth a chyfranogi'n effeithiol ac yn gyfrifol ym mywyd eu cymunedau.

Gallai arolygwyr ystyried ansawdd gwasanaethau addysg i droseddwy'r ifanc. Gallent ystyried pa mor fanwl y caiff perfformiad troseddwy'r ifanc ei fonitro ac effaith rhaglenni targedig i atal aildroseddu.

Gallai arolygwyr werthuso goruchwyliaeth yr awdurdod lleol o blant sy'n cael eu haddysgu adref gan eu rhieni, gan gynnwys plant a phobl ifanc â chynlluniau statudol ar gyfer eu haddysg. Gallai arolygwyr ystyried a yw'r awdurdod lleol yn darparu arweiniad a chyfeiriad defnyddiol ar gyfer cymorth i rieni sy'n addysgu eu plant adref. Gallai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae awdurdod yn monitro unrhyw batrymau o ran disgyblion yn dadgofrestru o ysgolion ac i ba raddau y caiff ysgolion eu herio'n briodol am eu gwaith gyda'r dysgwyr a'r teuluoedd dan sylw.

Gallai arolygwyr asesu pa mor dda y mae'r awdurdod lleol yn cyflawni ei gyfrifoldebau fel rhiant corfforaethol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal o ran eu haddysg.

1.3 Gwasanaethau cymorth addysg eraill

Gallai arolygwyr ystyried a yw'r awdurdod lleol yn cydweithio'n effeithiol â lleoliadau nas cynhelir i ddarparu addysg a ariennir o ansawdd da ar gyfer plant cymwys tair a phedair oed. Gallent ystyried ansawdd a phriodoldeb cynllun strategol yr awdurdod i gynnig addysg a ariennir i blant nad ydynt yn cael addysg gynnar mewn ysgolion a gynhelir. Gallai arolygwyr ystyried a oes digon o leoedd ar gyfer addysg gynnar o ansawdd da i fodloni'r galw a nodwyd drwy asesiad o ddigonolrwydd gofal plant. Gallai'r rhain gynnwys a oes digon o leoedd cyfrwng Cymraeg i adlewyrchu Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) yr awdurdod. Gallai arolygwyr ystyried effeithiolrwydd y cymorth a'r hyfforddiant a ddarperir i alluogi pob lleoliad i wella.

Gallai arolygwyr ystyried pa mor effeithiol y mae'r awdurdod lleol yn cydweithio â phartneriaid eraill i gydlynu a sicrhau bod digon o ddarpariaeth chwarae ar draws yr ardal. Gallai arolygwyr ystyried pa mor dda mae'r awdurdod yn sicrhau ansawdd y ddarpariaeth hon.

Gallai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae'r awdurdod lleol yn cydlynu gwasanaethau cymorth ieuencid. Gallent ystyried pa mor dda y mae'r awdurdod yn cydweithio â phartneriaid, gan gynnwys y sector gwirfoddol lleol, ysgolion ac eraill, i ddarparu ystod addas o wasanaethau cymorth ieuencid priodol sy'n bodloni anghenion a nodwyd yn lleol. Gallai arolygwyr ystyried p'un a yw'r awdurdod wedi nodi bylchau neu ddyblygu yn y ddarpariaeth gwasanaethau cymorth ieuencid neu beidio, a sut mae wedi ymyrryd i gynllunio'n fwy effeithiol. Gallai arolygwyr ystyried ansawdd cyfleoedd i blant a phobl ifanc gael achrediad neu gydnabyddiaeth ar gyfer dysgu a chyfranogiad drwy wasanaethau cymorth ieuencid.

Gallai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae gwasanaethau addysg yn sicrhau y gofynnir am farnau plant a phobl ifanc ac y cânt eu hystyried mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt.

Gallai arolygwyr ystyried a oes gan yr awdurdod wybodaeth gyfredol am nifer y lleoedd mewn ysgolion, gan gynnwys gwybodaeth am ysgolion sy'n orlawn a niferoedd y lleoedd gwag. Gallai arolygwyr ystyried a oes digon o leoedd yn y sector cynradd a'r sector uwchradd, gan gynnwys addysg cyfrwng Cymraeg ac addysg arbennig, ac a oes unrhyw ysgolion wedi'u gorlenwi'n sylweddol neu a oes ganddynt nifer sylweddol o leoedd gwag heb reswm da. Gallai arolygwyr ofyn am sicrwydd bod darpariaeth briodol ar gael i bob dysgwr, gan gynnwys trwy UC Dau neu ddarpariaeth arbenigol.

Gallai arolygwyr adolygu darpariaeth ôl-16 ar draws yr ardal. Gallai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae'r awdurdod lleol yn cydweithio ag ysgolion, UC Dau a phartneriaid allanol, fel sefydliadau addysg bellach a darparwyr dysgu yn y gwaith, i sicrhau bod cyfleoedd addysg a hyfforddiant priodol ar gyfer yr holl ddysgwyr ôl-16.

Gallai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae'r awdurdod lleol yn nodi'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg yn ei ardal ac i ba raddau y mae ei ddarpariaeth yn bodloni'r galw hwn ar hyn o bryd. Gallai arolygwyr ystyried pa mor ddatblygedig a chywir yw'r systemau ar gyfer rhagweld a monitro'r gofynion am leoedd ar draws yr holl gyfnodau. Gallai arolygwyr werthuso a yw'r ystod briodol o leoedd ym mhob cyfnod ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg yn adlewyrchu Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yr awdurdod. Gallai arolygwyr ystyried sut mae'r awdurdod yn cydweithio â'i bartneriaid, fel awdurdodau lleol eraill, i fodloni'r galw, ymgynghori â'i gilydd a chydlynu eu trefniadau'n effeithiol, lle y bo'n briodol.

Gallai arolygwyr werthuso i ba raddau y mae gan yr awdurdod lleol wybodaeth gywir a chyfredol am gyflwr, digonolrwydd ac addasrwydd yr holl adeiladau ysgol ac UC D. Dylai arolygwyr ystyried a yw'r blaenoriaethau ar gyfer buddsoddi mewn adeiladau ysgol ac adeiladau addysg eraill yn dryloyw, yn seiliedig ar werthusiad o'u cyflwr ac addasrwydd presennol, a'u bod wedi'u cytuno gyda'r ysgolion a'r darparwyr eraill dan sylw. Gallent ystyried a yw cyllid ar gyfer atgyweiriadau a gwaith cynnal a chadw mewn cyllidebau ysgol ac UC D wedi'u nodi'n glir, a ph'un a yw'r awdurdod yn sicrhau bod ysgolion ac UC Dau yn ymgymryd â'u cyfrifoldebau o ran eu heiddo. Gallai arolygwyr ystyried rheolaeth y rhaglen adeiladau, gan gynnwys a yw atgyweiriadau brys yn cael eu trefnu'n brydlon.

Gallai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae'r awdurdod lleol yn cynllunio ymlaen llaw ac yn gwerthuso'r holl opsiynau er mwyn sicrhau bod adnoddau cyfalaf priodol ar gael i gyflawni ei gynlluniau trefniadaeth ysgolion. Gallai arolygwyr ystyried p'un a yw cynigion trefniadaeth ysgolion cyhoeddedig yn debygol o gynnal neu wella safon y ddarpariaeth addysg yn yr ardal. Gallent ystyried pa mor dda y mae'r awdurdod lleol wedi ystyried manteision a risgiau'r cynigion ac wedi ystyried yr agweddau addysgol ar y cynigion yn briodol. Gallai arolygwyr ystyried a yw gwybodaeth am anghenion lleol yn cael ei defnyddio'n dda ac a oes cysylltiad rhwng adrannau'r awdurdod, fel yr adran tai, cynllunio a'r gwasanaethau cymdeithasol i gysylltu â strategaethau adfywio ehangach.

Gallai arolygwyr adolygu unrhyw drefniadau ffederasiwn ysgolion ffurfiol neu anffurfiol mewn awdurdod lleol. Gallai arolygwyr ystyried cymorth yr awdurdod lleol ar gyfer ffederasiynau a gwerthuso'u heffaith.

Gallai arolygwyr ystyried sut mae awdurdodau derbyniadau lleol yn ymgynghori â'i gilydd ac yn cydlynu eu trefniadau ar gyfer derbyniadau i ysgolion yn effeithiol. Gallent ystyried a yw'r fforwm derbyniadau yn effeithiol a ph'un a yw'r wybodaeth a roddir i rieni am dderbyniadau i ysgolion yn hawdd mynd ati ac yn hawdd ei deall, yn dryloyw ac yn bodloni'r Cod Ymarfer Derbyniadau.

Gallai arolygwyr ystyried i ba raddau y caiff dewisiadau rhieni o ran lleoedd ysgol eu bodloni. Gallent adolygu pa mor gyflym a theg y mae'r awdurdod yn ymateb i apelïadau er mwyn lleihau'r risg y bydd plant a phobl ifanc yn colli unrhyw ran o'u haddysg.

2: Arwain a gwella

Rhaid i arolygwyr werthuso ac adrodd ar bob un o'r pum agwedd, er nad yw'n ofynnol i arolygwyr adrodd yn erbyn yr holl fanylion a geir yn yr arweiniad ar gyfer y maes arolygu hwn. Ym mhob arolygiad, **rhaid** i'r adran hon o'r adroddiad ystyried a chyfeirio at ddeilliannau i ddysgwyr.

Dylai arolygwyr ystyried yr ystod eang o dystiolaeth sydd ar gael iddynt drwy ein holl weithgareddau arolygu gydag awdurdodau lleol a darparwyr addysg eraill, yn ogystal â'r dystiolaeth benodol a ddarparwyd gan yr awdurdod lleol yn ystod yr arolygiad craidd a gywbodaeth a gasglwyd trwy gyfweiliadau.

Dylai arolygwyr sicrhau bod gwasanaethau addysg cryf sy'n cael eu harwain yn dda yn cael eu hystyried ac yr adroddir arnynt yn yr adran hon, yn enwedig ble na chaiff y gwasanaethau hyn eu cofnodi trwy gwestiynau lleol meysydd arolygu ym maes arolygu 2.

Dylai arolygwyr gyfeirio'n briodol at ganfyddiadau allweddol yr arolygiad o waith ieuencid statudol i lywio naratif yr adroddiad GALIL.

2.1 Ansawdd ac effeithiolrwydd arweinwyr a rheolwyr

Mae cysylltiad cryf rhwng arweinyddiaeth a rheolaeth, ansawdd gwasanaethau addysg a deilliannau ar gyfer dysgwyr. Dylai arolygwyr gofio, er bod y cysylltiad yn gryf, fod oedi gan amlaf rhwng arweinwyr yn cymryd camau buddiol a phendant i ysgogi gwelliannau ac effaith y camau gweithredu hyn ar ddeilliannau, yn enwedig o ran perfformiad ysgolion ac UC'Dau.

Dylai arolygwyr ystyried i ba raddau y mae arweinwyr a rheolwyr wedi sefydlu a chyfleu gweledigaeth glir a nodau, amcanion strategol, cynlluniau a pholisïau priodol sy'n canolbwyntio ar fodloni anghenion pob dysgwr. Dylent farnu a yw arweinwyr a rheolwyr yn creu ac yn cynorthwyo cyd-ddealltwriaeth o anghenion a blaenoriaethau a nodwyd yn glir ar gyfer dysgwyr.

Dylai arolygwyr fyfyrïo ar ba mor dda y mae arweinwyr, gan gynnwys swyddogion ac aelodau etholedig, yn gosod disgwyliadau uchel ar gyfer staff, ysgolion, UC'Dau, darparwyr addysg eraill a phartnerïaid. Dylent ystyried pa mor dda y mae staff ar bob lefel yn deall ac yn cyflawni eu rolau a'u cyfrifoldebau, a pha mor dda y maent yn cydweithio i yrru blaenoriaethau strategol a chynlluniau ar gyfer gwasanaethau addysg yn eu blaenau.

Dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn datblygu tîm effeithiol ac ymgysylltiol o staff. Dylent ystyried i ba raddau y mae arweinwyr a rheolwyr yn modelu ac yn hybu gwerthoedd ac ymddygiadau proffesiynol sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at wella gwasanaethau a chydweithredu effeithiol rhwng staff a gyda darparwyr eraill. Dylent ystyried pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn hyrwyddo, ac yn darparu cymorth ar gyfer, lles staff. Hefyd, dylai arolygwyr ystyried i ba raddau y mae arweinwyr yn ystyried effaith unrhyw ofynion newydd neu ddiwygiedig ar lwyth gwaith eu staff eu hunain ac ar benaethiaid, arweinwyr a staff mewn lleoliadau addysg eraill.

Dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae cynlluniau strategol yn ystyried blaenoriaethau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol ac arweiniad Llywodraeth Cymru.

Dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn gweithredu'n unol â'r egwyddorion a bennwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn gwneud penderfyniadau, ac yn pennu blaenoriaethau, ar gyfer gwella sy'n cydbwysio anghenion uniongyrchol, tymor byr ag anghenion tymor hir dysgwyr, cymunedau lleol a Chymru. Dylai arolygwyr ystyried i ba raddau y mae arweinwyr yn blaenoriaethu gwelliannau cynaliadwy dros welliannau tymor byr sy'n anghynaliadwy.

Ym mhob arolygiad, **rhaid** i arolygwyr ystyried ac adrodd ar ba mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn hyrwyddo tegwch yn y system addysg. **Rhaid** i arolygwyr asesu pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn hyrwyddo cydraddoldeb ac yn atal a mynd i'r afael â gwahaniaethu, aflonyddu a bwlio, gan gynnwys yn gysylltiedig â nodweddion gwarchoddedig. **Rhaid** i arolygwyr adolygu pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn cyflawni eu dyletswydd i ystyried sut gallai eu penderfyniadau helpu lleihau'r anghydraddoldebau o ran profiad a deilliannau i ddysgwyr o aelwydydd ag incwm isel.

Rhaid i arolygwyr ystyried pa mor dda y mae'r awdurdod lleol neu ddarparwr arall gwasanaethau addysg yn hyrwyddo ac yn galluogi defnyddio'r Gymraeg yn ei sefydliad ei hun ac yn yr ysgolion a'r darparwyr addysg eraill y mae'n cydweithio â nhw. Dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae'n cefnogi'r nod cenedlaethol o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Dylai arolygwyr adolygu pa mor dda y mae'r awdurdod lleol neu ddarparwr arall gwasanaethau addysg yn arddel hawliau plant a phobl ifanc a amlinellir yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

Dylai arolygwyr farnu a yw arweinwyr yn gwneud penderfyniadau anodd mewn modd amserol yn ôl yr angen, gan ddilyn proses drylwyr ac agored o archwilio ac ymgynghori sy'n gyson ag amcanion strategol.

Dylai arolygwyr edrych ar y graddau y mae arweinwyr a rheolwyr yn cynnal ansawdd uchel neu'n gwella agweddau gwan ar ddarpariaeth. Dylent ystyried pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn nodi ac yn asesu risgiau ac yn atal problemau rhag digwydd yn y lle cyntaf. Pan fydd problemau wedi digwydd, dylai arolygwyr ystyried pa mor gyflym yr aeth arweinwyr i'r afael â'r rhain a chymryd camau adferol addas i atal problemau rhag gwaethygu.

Dylai arolygwyr farnu pa mor glir a thryloyw y mae'r awdurdod lleol neu'r darparwr arall gwasanaethau addysg yn cyfleu ei weledigaeth, ei fwriadau a deilliannau disgwylidig i ysgolion, dysgwyr a rhanddeiliaid perthnasol eraill, ac yn ymgynghori â nhw. Dylent edrych ar ansawdd y berthynas rhwng yr awdurdod lleol, darparwyr eraill gwasanaethau addysg, awdurdodau esgobaethol, ysgolion, UC Dau, lleoliadau addysg eraill a phartneriaid ehangach o ran eu heffaith ar ddeilliannau ar gyfer dysgwyr yn yr awdurdod.

Dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae'r awdurdod yn comisiynu, yn gweithio mewn partneriaeth â, yn cydlynu, yn goruchwyllo, yn llywodraethu, yn monitro ac yn herio unrhyw wasanaethau partneriaeth neu wasanaethau wedi'u contractio. Gallai'r gwasanaethau hyn gynnwys y gwasanaethau gwella ysgolion, gwasanaethau cymorth addysg sy'n cael eu darparu gan awdurdod lleol arall ar ran yr awdurdod lleol a gwasanaethau wedi'u contractio i sefydliadau preifat neu wirfoddol, er enghraifft gwasanaethau cwnsela neu wasanaethau eiriolaeth. Ar gyfer darparwyr eraill gwasanaethau addysg, dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y maent yn darparu'r gwasanaethau gofynnol ac yn darparu adroddiadau defnyddiol ar gynnydd i'r awdurdod lleol.

Mewn awdurdodau lleol, dylai arolygwyr werthuso pa mor dda y mae arweinwyr corfforaethol ac aelodau etholedig allweddol yn deall y flaenoriaeth a roddir i addysg mewn cynlluniau a pholisïau corfforaethol a'u cyfraniadau priodol at gyflawni'r flaenoriaeth honno. Dylai arolygwyr werthuso a yw cynlluniau corfforaethol a chynlluniau strategol eraill yn gyson â'i gilydd, fel eu bod yn glir, wedi'u dilyniannu'n dda, yn fforddiadwy ac yn gyflawnadwy.

Dylai arolygwyr farnu effeithiolrwydd craffu gan aelodau etholedig a byrddau goruchwyllo eraill o ran herio tanberfformiad ac o ran llywio gwelliant parhaus cyflwyno gwasanaethau a datblygu polisi. Dylai arolygwyr ystyried effeithiolrwydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus o ran nodi a goresgyn rhwystrau perthnasol rhag gwella. Dylai arolygwyr ddefnyddio tystiolaeth o fonitro'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus o'i effaith ar gyflwyno gwasanaethau. Hefyd, dylai arolygwyr werthuso'r trefniadau i graffu ar ddarparwyr gwasanaethau addysg eraill a gomisiynwyd gan yr awdurdod lleol neu a sefydlwyd mewn partneriaeth ag awdurdodau eraill.

Dylai arolygwyr werthuso defnyddioldeb prosesau craffu. Dylai arolygwyr farnu eglurder a chadernid data a gwybodaeth, ynghyd â dadansoddiad a gwerthusiad cysylltiedig a gyflwynir i'r pwyllgor craffu. Dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y caiff trefniadau craffu eu hategu gan hyfforddiant da i hyrwyddo dealltwriaeth aelodau'r pwyllgor craffu o'u cyfrifoldebau ac arfer eu cyfrifoldebau. Dylai arolygwyr edrych ar effaith y trefniadau strwythurol ar gyfer craffu ar ansawdd eu gwaith, fel defnyddio grwpiau gorchwyl craffu i ddadansoddi agweddau penodol ar y gwasanaeth addysg wrth ddatblygu dealltwriaeth ac arbenigedd aelodau.

Dylai arolygwyr farnu a yw'r rhaglen waith craffu wedi'i threfnu'n dda a pha mor dda yw'r aliniad rhwng y rhaglenni ar gyfer pwyllgorau craffu a'r cabinet i'w galluogi i wneud penderfyniadau amserol a gwybodus. Hefyd, dylai arolygwyr ystyried i ba raddau y mae'r holl grwpiau gwleidyddol yn cyfrannu at wneud penderfyniadau a monitro cynnydd fel bod y cyfranogiad trawsbleidiol hwn yn arwydd o nod cyffredin i wella gwasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc.

Dylai arolygwyr fesur p'un a oes gan aelodau etholedig drosolwg da o'r holl wasanaethau ar draws yr awdurdod lleol er mwyn cymharu a herio gwasanaethau yn fwy effeithiol a gwneud penderfyniadau gwybodus. Hefyd, dylai arolygwyr ystyried ansawdd, cywirdeb a defnyddioldeb yr adroddiadau a'r briffiau a ddarperir gan swyddogion i aelodau'r pwyllgor craffu.

Dylai arolygwyr edrych ar ba mor dda y mae aelodau etholedig wedi gwneud penderfyniadau anodd mewn meysydd fel ad-drefnu ysgolion. Dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae aelodau'n dwyn uwch swyddogion i gyfrif am y gwasanaethau a'r deilliannau y maent yn gyfrifol amdanynt.

2.2 Prosesau hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella

Rhaid i arolygwyr werthuso ac adrodd ar ba mor gywir y mae arweinwyr a rheolwyr yn adnabod cryfderau a meysydd i'w gwella gwasanaethau addysg o ganlyniad i brosesau sefydledig ar gyfer hunanwerthuso, monitro a sicrhau ansawdd.

Bydd arolygwyr yn barnu'r graddau y mae hunanwerthuso'n rhan o gylch gwella busnes blynyddol arferol, wedi'i ategu gan wybodaeth berthnasol am berfformiad a thystiolaeth fel adroddiadau perfformiad, adroddiadau cynnydd a dadansoddiadau data a ddarperir i bwyllgor craffu, cabinet neu bwyllgorau archwilio'r cyngor. Dylai fod rôl allweddol gan y pwyllgorau craffu i gefnogi a herio'r broses hunanwerthuso, a dylai arolygwyr asesu ansawdd eu cyfraniad.

Dylai arolygwyr werthuso pa mor dda y mae'r awdurdod lleol neu ddarparwr arall gwasanaethau addysg yn cynnwys rhanddeiliaid ac yn ystyried eu safbwyntiau yn ei brosesau hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella, gan gynnwys plant a phobl ifanc, rhieni, darparwyr gwasanaethau a phartneriaid. Dylai arolygwyr wirio bod y broses yn gynhwysol ac yn rhoi ystyriaeth gymesur i'r cymunedau amrywiol yn yr awdurdod lleol.

Dylai arolygwyr ystyried ansawdd cynllunio ar gyfer gwella a pha mor dda y mae'r blaenoriaethau ar gyfer gwella yn cysylltu â'r canfyddiadau o brosesau hunanwerthuso ac yn cael eu llywio gan archwilio, asesiadau o anghenion a dadansoddi data.

Dylai arolygwyr wirio cysondeb a chydlyniant cynlluniau, o'r cynllun lefel uchaf i gynlluniau gweithredol, ac yn allanol â phartneriaid. Dylent chwilio am 'drywydd aur' addysg a hyfforddiant sy'n rhedeg drwy haenau amrywiol gynlluniau, cytundebau polisi a mentrau eraill. Dylai arolygwyr ystyried sut mae arweinwyr a rheolwyr yn sicrhau y caiff blaenoriaethau eu cefnogi trwy ddyrannu adnoddau. Dylent werthuso i ba raddau y mae arweinwyr a rheolwyr yn diffinio camau gweithredu perthnasol, mesuradwy a chyflawnadwy ar gyfer gwella. Dylent ystyried pa mor dda y mae cynlluniau'n cynnwys amserlenni penodol a realistig ac yn dyrannu cyfrifoldeb priodol am eu cyflawni. Os nad yw'n ymddangos o fewn cwestiwn arolygu lleol, dylai arolygwyr werthuso Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yr awdurdod lleol wrth ystyried ansawdd cynllunio gwelliant.

Dylai arolygwyr farnu effeithiolrwydd trefniadau rheoli perfformiad a'u heffaith ar staff, gwasanaethau, partneriaid a datblygu'r gweithlu. Dylent ddefnyddio tystiolaeth o

fonitro'r awdurdod lleol neu ddarparwr arall gwasanaethau addysg ei hun o effaith ei drefniadau rheoli perfformiad.

Dylai arolygwyr ystyried sut mae'r system rheoli perfformiad yn galluogi uwch reolwyr a, ble y bo'n berthnasol, aelodau etholedig, i ddefnyddio dangosyddion perfformiad yn effeithiol i fonitro cynnydd yn erbyn cerrig milltir yn rheolaidd a chymryd camau unioni priodol. Dylent farnu'r effaith a gaiff cynllunio, blaenoriaethau a chamau gweithredu i sicrhau gwelliant ar ddeilliannau.

Dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae'r awdurdod neu ddarparwr arall gwasanaethau addysg wedi ymateb i argymhellion o adroddiadau arolygu blaenorol, adroddiadau thematig ac adroddiadau perthnasol eraill gan arolygiaethau a rheoleiddwyr. Dylai arolygwyr farnu i ba raddau y mae camau gweithredu wedi arwain at welliannau o ran ansawdd gwasanaethau addysg a deilliannau dysgwyr. Dylent ystyried cyflymdra'r cynnydd a chynaliadwyedd unrhyw welliannau.

Dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae'r awdurdod neu ddarparwr arall gwasanaethau addysg yn ymateb i gŵynion am ei wasanaethau p'un a ydynt gan ysgolion, UC'Dau, rhieni neu ofalwyr, llywodraethwyr neu aelodau'r cyhoedd, a sut mae'r hyn sy'n cael ei ddysgu o gŵynion yn cael ei ddefnyddio i wella cyflwyno gwasanaeth.

Mae gwybodaeth broffesiynol, medrau a dealltwriaeth staff yr awdurdod lleol yn allweddol i gynnal a gwella perfformiad gwasanaethau addysg llywodraeth leol. Bydd arolygwyr yn ystyried i ba raddau y mae staff ar bob lefel yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am eu meysydd cyfrifoldeb, gan gynnwys dysgu o arfer dda. Dylai arolygwyr ystyried sut mae staff yr awdurdod neu ddarparwr arall gwasanaethau addysg yn hyrwyddo ac yn ymgysylltu â dysgu proffesiynol trwy gyfleoedd dysgu wedi'u strwythuro, ymchwil a chydweithrediadau â rhwydweithiau proffesiynol yng Nghymru, y DU ac yn rhyngwladol. Bydd arolygwyr yn ystyried yr effaith a gaiff gweithgareddau dysgu proffesiynol ar wella ansawdd deilliannau a gwasanaethau addysg.

Dylai arolygwyr ystyried pa mor effeithiol y mae dysgu proffesiynol yn cefnogi'r weledigaeth, nodau a blaenoriaethau strategol. Dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y caiff trefniadau rheoli perfformiad eu defnyddio i nodi anghenion dysgu proffesiynol staff. Dylai arolygwyr werthuso priodoldeb ac effaith dysgu proffesiynol o ran cymell staff a gwella eu perfformiad. Dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae staff yn datblygu'u medrau arwain trwy gyfleoedd dysgu strwythuredig. Dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae dysgu proffesiynol wedi'i gysylltu â chynllunio olyniaeth.

Dylai arolygwyr ystyried pa mor effeithiol y mae'r awdurdod lleol neu ddarparwr arall gwasanaethau addysg yn datblygu cymuned ddysgu gref ac yn cyflawni diwylliant o gydweithio ag ysgolion, UC'Dau, lleoliadau addysg eraill a phartneriaid. Dylai arolygwyr ystyried pa mor effeithiol y mae gwasanaethau addysg llywodraeth leol yn rhannu arfer dda, yn dysgu gan eraill ac yn cyfrannu at gymunedau dysgu proffesiynol yn ehangach. Yn benodol, dylent werthuso pa mor dda y mae'r awdurdod lleol neu'r darparwr arall gwasanaethau addysg yn dysgu o arfer orau mewn mannau eraill.

2.3 Diogelu

Ym mhob arolygiad, **rhaid** i arolygwyr adrodd ar b'un a yw trefniadau diogelu'r awdurdod lleol neu ddarparwr arall gwasanaethau addysg yn bodloni'r gofynion ac nad ydynt yn peri pryder neu'n peidio â bodloni'r gofynion ac yn peri pryder difrifol.

Bydd arolygwyr yn ystyried i ba raddau y ceir diwylliant o ddiogelu ar draws gwasanaethau addysg sy'n cefnogi lles yr holl ddysgwyr. Hefyd, bydd arolygwyr yn ystyried pa mor dda y mae'r awdurdod lleol neu ddarparwr arall gwasanaethau addysg yn hyrwyddo diwylliant o ddiogelu mewn ysgolion, UC Dau a darparwyr eraill sy'n cefnogi lles pob dysgwr.

Bydd arolygwyr yn asesu cadernid gweithdrefnau ar gyfer gwirio addasrwydd staff a phobl eraill sydd mewn cysylltiad â phlant, gan gynnwys cynnal a chadw cofnod o'r holl staff sy'n gweithio gyda phlant a chanlyniadau gwiriadau recriwtio diogel. Bydd arolygwyr yn adolygu'r gweithdrefnau ar gyfer hyfforddi staff ac yn gwirio bod yr holl staff yn gwybod sut i ymateb i faterion amddiffyn plant.

Bydd arolygwyr yn ystyried pa mor dda y mae'r awdurdod neu ddarparwr arall gwasanaethau addysg yn cyflawni ei ddyletswydd i atal dysgwyr rhag cael eu denu i derfysgaeth trwy atal radicaleiddio ac eithafiaeth.

Mewn arolygiadau o awdurdodau lleol, bydd arolygwyr yn gwerthuso pa mor dda y mae'r awdurdod yn cyflawni ei gyfrifoldebau statudol o ran diogelu. Yn benodol, byddant yn gwerthuso p'un a oes gan yr awdurdod drefniadau diogelu effeithiol ar waith, gan gynnwys:

- cynllunio strategol ar gyfer, a goruchwyllo, diogelu mewn addysg, gan gynnwys adrodd yn rheolaidd i aelodau
- cymorth ac arweiniad priodol ar gyfer yr holl ddarparwyr gwasanaethau addysg yn ei ardal, gan gynnwys y blynyddoedd cynnar, chwarae a gwasanaethau cymorth ieuenctid
- mynd ar drywydd pryderon a nodwyd yn ystod arolygiadau o ddarparwyr y mae'n gyfrifol amdanynt
- arfer ddiogelu briodol yn ei wasanaethau addysg uniongyrchol, fel addysg heblaw yn yr ysgol, UC Dau a'r gwasanaeth ieuenctid
- bod trefniadau priodol ar waith i sicrhau bod yr holl waith partneriaeth sy'n cael ei wneud, ei gydlynu neu ei ariannu gan yr awdurdod lleol yn cadw at safonau diogelu uchel
- bod polisïau, gweithdrefnau a threfniadau adrodd priodol yn gysylltiedig ag ymyriadau corfforol a thynnu allan o wersi
- mynd ar drywydd pryderon a godwyd gan randdeiliaid, gan gynnwys rhieni a gofalwyr, staff a disgyblion darparwyr y mae'n gyfrifol amdanynt

2.4 Defnyddio adnoddau

Dylai arolygwyr werthuso pa mor glir y mae ei drefniadau dyrannu adnoddau wedi'u cysylltu â blaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Dylent ystyried a oes trefniadau cadarn ar gyfer cynllunio ariannol cadarn a datblygu'r gweithlu yn cyd-fynd â strategaethau gwella sy'n gwneud datblygiadau arfaethedig yn ymarferol.

Dylai arolygwyr werthuso pa mor dda y mae'r awdurdod lleol neu ddarparwr arall gwasanaethau addysg yn adolygu ei wasanaethau'n rheolaidd er mwyn sicrhau gwelliant parhaus a gwerth am arian trwy roi ystyriaeth briodol i'r economi, effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd.

Mewn arolygiadau o awdurdodau lleol, dylai arolygwyr ystyried pa mor deg y mae'r awdurdod lleol yn ariannu ysgolion ac UC'Dau ar sail anghenion dysgwyr a chyd-destunau ysgolion ac UC'Dau. Dylai arolygwyr ystyried adolygiad diweddaraf yr awdurdod lleol o'i drefniadau ariannu ar gyfer ysgolion. Dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae'r awdurdod lleol yn defnyddio ac yn sicrhau defnydd effeithiol o gyllid grant penodol i ysgolion, UC'Dau a darparwyr eraill, naill ai'n uniongyrchol neu drwy drefniant partneriaeth.

Pan fydd yr awdurdod lleol yn comisiynu cymorth ar gyfer plant a phobl ifanc gan asiantaethau allanol, er enghraifft cymorth ar gyfer dysgwyr o grwpiau lleiafrifoedd ethnig neu ofalwyr ifanc, dylai arolygwyr farnu pa mor dda y mae'r awdurdod lleol yn sicrhau bod y cymorth a ddarperir yn cynnig gwerth da am arian, a bod hynny'n cael ei ddangos drwy ddeilliannau gwell. Dylai arolygwyr farnu pa mor dda y mae'r awdurdod lleol, gydag ysgolion ac UC'Dau, yn monitro ac yn rheoli ansawdd a chost unrhyw drefniadau partneriaeth. Dylai arolygwyr farnu pa mor effeithiol y mae'r awdurdod lleol yn dwyn y bartneriaeth berthnasol i gyfrif am y gwasanaeth y mae'n ei ddarparu.

Dylai arolygwyr farnu pa mor dda y mae'r awdurdod lleol neu ddarparwr arall gwasanaethau addysg yn cymharu ei gostau a'i ddeilliannau â rhai eraill yng Nghymru ac yn gallu dangos bod plant a phobl ifanc yn cyflawni deilliannau da mewn perthynas â chostau'r gwasanaethau y mae'n eu darparu.

Dylai arolygwyr werthuso i ba raddau y mae'r awdurdod lleol neu ddarparwr arall gwasanaethau addysg yn mynd ar drywydd partneriaethau gyda sefydliadau eraill, lle mae hyn o fudd o ran gwella deilliannau ar gyfer dysgwyr a chyflawni gwerth gwell am arian.

Ym mhob un o'r uchod, dylai arolygwyr ddefnyddio tystiolaeth o adroddiadau monitro mewnol, adroddiadau craffu ac adroddiadau archwilio allanol ar ei reolaeth o adnoddau.

Wrth ystyried gwerth am arian, dylai arolygwyr werthuso effeithiolrwydd yr awdurdod lleol neu ddarparwr arall gwasanaethau addysg o ran cyflawni deilliannau o ansawdd uchel ar gyfer plant a phobl ifanc, ond bydd angen iddynt ystyried pa mor dda y caiff adnoddau eu rheoli, hefyd.

Dylai arolygwyr werthuso pa mor dda y mae'r awdurdod lleol neu ddarparwr arall gwasanaethau addysg:

- yn cydbwysu effeithiolrwydd ei ddarpariaeth addysg yn llwyddiannus yn erbyn costau, gan gynnwys costau staffio
- yn defnyddio ei adnoddau ei hun
- yn defnyddio'r cyllid y mae'n ei gael mewn modd pwrpasol ac effeithlon